Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog
Prestatyn
Sir Ddinbych LL19 8RP
Ffôn: (01745) 853019
e-bost: ysgol.yllys@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.ysgolyllys.co.uk

Ysgol y Llys
Princes Avenue
Prestatyn
Denbighshire LL19 8RP
Phone: (01745) 853019
e-mail: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
Website: www.ysgolyllys.co.uk

D.M. Phillips, B.Ed.
Pennaeth / *Head teacher*

19.12.19

Annwyl Rieni,

Ar ddiwedd flwyddyn arall hoffwn ddiolch yn ddifuant i rieni, disgyblion a staff am flwyddyn llwyddiannus eto yma yn hanes Ysgol y Llys. Ar drothwy'r Nadolig, mae'n gyfle i fyfyrio ar yr hyn sydd wedi digwydd- dathlu llwyddiannau ac edrych ymlaen at flwyddyn newydd.

Hoffwn gydnabod ymdrechion staff eleni. Cryfder unrhyw ysgol yw safonau ac ymrywymiad staff tuag at y plant, eu cydweithwyr, at rieni ac at y gymuned ehangach. Fel pennaeth, rwyf yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth, eu dycnwch ac am eu ffyddlondeb i'r ysgol. Mawr hyderaf caiff y staff gyfle i ymlacio a mwynhau'r wyl efo'u teuluoedd.

Diolchaf i'r plant am eu hagweddau positif tuag at ddysgu a thuag at y Gymraeg. Testun balchder personol er enghraifft oedd cael gweld plant y Llys yn chwarae rol blaenllaw pan gynhaliwyd Gwyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2020 ym Mhrestatyn ar ddechrau Hydref eleni. Gwych iawn! Edrychwn ymlaen yn eiddgar at 2020- bydd llygaid Cymru ben baladr ar Sir Ddinbych gyda ddyfodiad yr Eisetddfod Genedlaethol- a braf fydd gweld plant y Llys yn rhan annatod o'r weithgareddau.

Llywodraethwyr- Mae'r gefnogaeth unwaith eto gan aelodau'r corff wedi bod yn amhrisiadwy. Cefnogaeth a her- ffrind beirniadol i mi fel pennaeth. Diolchaf am bob cefnogaeth. Edrychaf i barhau i gydweithio yn y flwyddyn newydd. Hoffwn hefyd ddiolch i Bwyllgor CRHA sy'n gweithio mor ddiwyd i drefnu gweithgareddau sy'n codi arian i brynu adnoddau gwerthfawr i'r ysgol- diolch am eich holl waith caled.

Diolchaf hefyd i rieni Ysgol y Llys am eich cefnogaeth i'r ysgol. Mae polisi drws agored i rieni wedi bod erioed yma yn y Llys ac mae'n testun balchder fod rhieni yn gallu bod mor agored i fynegi barn. Mae cyfathrebu effeithiol yn allweddol ac fel staff rydym yn falch eich bod yn chwarae rol blaenllaw yn llwyddiant yr ysgol.

Anodd credu bod llai na 10 mis ers i ni gael ESTYN yma i arolygu'r ysgol. Testun balchder i ni fel staff, oedd crynodeb o'r arfarniad oedd yn cynnwys y canlynol;

'Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, sy'n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol a gweithgar i'r disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol, maent yn ymddwyn yn dda ac maent yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr ac yn arddangos balchder yn eu hysgol.' (ESTYN- Mawrth 2019).

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen i un ac oll. Mwynhewch y cyfnod efo'ch teuluoedd. Manteisiwch ar y cyfle i sgwrsio a thrafod efo'ch teuluoedd. Nid anrhegion drudfawr gofith y plant fel aent yn hyn, ond y pethau bach- mynd am dro, chwerthin, cyfeillgarwch. Nid oes rhaid gwario'n ddrud i gael y profiadau yma.

Yn ddiffuant,
Dyfan Phillips a Staff Ysgol y Llys.

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog
Prestatyn
Sir Ddinbych LL19 8RP
Ffôn: (01745) 853019
e-bost: ysgol.yllys@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.ysgolyllys.co.uk

Ysgol y Llys
Princes Avenue
Prestatyn
Denbighshire LL19 8RP
Phone: (01745) 853019
e-mail: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
Website: www.ysgolyllys.co.uk

D.M. Phillips, B.Ed.
Pennaeth / *Head teacher*

19.12.19

Dear Parents,

At the end of 2019, I would like to take this opportunity to thank parents, pupils and staff for another successful year here at Ysgol y Llys. With the end of the year approaching, it is an opportunity to reflect on what has happened over the past 12 months, to celebrate achievements and look forward to the future. Firstly, my thanks go to the staff. The strength of any school lies with those practitioners who are charged with educating our children. I appreciate all their hard work, their dedication to the pupils and to each other as colleagues. I sincerely hope that staff will enjoy a well-deserved rest over the festive period.

My thanks also go the pupils- towards their positive attitude towards school and towards the Welsh language. A good example of this was the role the school played during the Urdd Proclamation Ceremony back in October. 2020 will undoubtedly be an exciting time as we welcome the Urdd National Eisteddfod to Denbighshire and I am certainly looking forward to the contribution we as a school will make in ensuring the event is a success.

Governors- The support from the Governing Body once again has been extremely positive. The balance between challenge and support is a very fine line, but Governors at Ysgol y Llys balance this extremely effectively and ensure the school continues to evolve and improve. I am grateful for this support. I would also like to thank the hard working PTA Committee who contribute so much to ensure Ysgol y Llys has funds to buy new resources for school- diolch!
I would also like to thank parents for the support to Ysgol y Llys over the last twelve months. It has always been an 'open door policy' as regards to communication with parents and this is a two way thing. We pride ourselves that parents can be open and frank with us a school as effective communication is vital to any successful institute. Thank you for your support and we look forward to continuing to work together as we enter 2020.

It is difficult to believe that we were inspected by ESTYN here at Ysgol y Llys less than ten months ago. It is with pride that we were judged by the inspectorate as……

'Staff create a happy, caring and inclusive ethos at the school, which fosters a supportive and hardworking environment for pupils. As a result, nearly all pupils enjoy the school's life and work, behave well and develop positive attitudes to learning. They treat their peers, staff and visitors with respect and show pride in their school.' (ESTYN- March 2019)

I would like to wish you all a Merry Christmas. I hope you all enjoy the holidays with your families. Remember to enjoy the small things- engaging in conversation with friends/family. Pupils will not necessarily remember expensive gifts but I am sure they will remember experiencing time well spent with family and friends. These do not have to cost the earth.

Kind regards,
Dyfan Phillips and Ysgol y Llys Staff.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE
CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog
Prestatyn
Sir Ddinbych LL19 8RP
Ffôn: (01745) 853019
e-bost: ysgol.yllys@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.ysgolyllys.co.uk

Ysgol y Llys
Princes Avenue
Prestatyn
Denbighshire LL19 8RP
Phone: (01745) 853019
e-mail: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
Website: www.ysgolyllys.co.uk

D.M. Phillips, B.Ed.
Pennaeth / *Head teacher*

Profiadau'r hanner tymor- Blas yr Wyl! ***A taste of the Festive Activities here at Ysgol y Llys!***

Ysgol yn ail agor i BAWB ar ddydd Llun Ionawr 6ed, 2020. School re-opens for all on Monday, January 6th, 2020